



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

GWASANAETHAU POBL

**PECYN
YMGEISWYR**



CYFLWYNIAD GAN Y LLYWYDD AC IS-GANGHELLOR **YR ATHRO CARA AITCHISON**

MA(Angh), PgDRLP, Cert Ed, MA, PhD, FAcSS, FRGS, FHEA, FLSW

Rwyf wrth fy modd eich bod yn ystyried ymuno â'n tîm Metropolitan Caerdydd ar yr adeg bwysig hon yn natblygiad ein Prifysgol.

Er gwaethaf yr heriau mae pob prifysgol yn eu hwynebu o ganlyniad i bandemig presennol Covid-19, mae Met Caerdydd yn parhau'n brifysgol ffyniannus a chynaliadwy yn ariannol sy'n hyrwyddo llesiant ein myfyrwyr, ein staff, ein dinas, a'n cenedl yn ogystal â chael effaith ar y llwyfan byd-eang.

Mae'r Brifysgol yn dal i fod mewn sefyllfa ariannol gryf, gyda throsiant a gynyddodd o lai nag £80m yn 2011/2012 i £108m yn 2018/19. O ganlyniad i strategaeth sy'n canolbwyntio ar wella, arallgyfeirio a thwff, gwelwyd recriwtiad cyffredinol myfyriwr ar gyfer 2019/20 yn rhagori ar y targed a chynyddu bob blwyddyn dros y tair blynedd diwethaf. Mae ymgysylltiad a boddhad myfyriwr wedi cynyddu bob blwyddyn yn y tair blynedd diwethaf hefyd fel a welwyd yn y canlyniad bod boddhad cyffredinol o 85% yn Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2019, a'n gosododd ni ymhlith yr 20% o brifysgolion gorau'r DU o ran boddhad myfyrwyr.

Ym mhob dim a wnawn ni, ymdrechwn i roi "EDGE" Met Caerdydd i'n myfyrwyr: sef safbwynt moesegol, digidol, byd-eang ac entrepreneuriaidd sydd wedi'i ymgorffori o fewn eu modiwlau sy'n cael eu haddysgu a'i wella trwy raglenni sy'n canolbwyntio ar ymarfer a gwaith proffesiynol. Y Brifysgol oedd yr un gyntaf yng Nghymru i sicrhau'r Marc Menter Gymdeithasol, yn y 10% uchaf o brifysgolion y DU am nifer y graddedigion sy'n cychwyn busnes ac mae 96% o'n graddedigion yn dod o hyd i gyflogaeth o fewn y chwe mis cyntaf, sy'n golygu y cawn ni, fel prifysgol, ein dewis gan lawer o bobl sydd am wneud eu marc.

Nid amserau normal yw'r rhain ac yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf rydym wedi sefydlu amrediad eang o systemau, prosesau, polisïau ac arferion gweithio newydd i ymateb i'r argyfwng cenedlaethol sy'n deillio o Covid-19. Mae ein gwaith hyd yma wedi blaenoriaethu iechyd a llesiant ein staff a'n myfyrwyr ochr yn ochr â chynnaladwydd ariannol ein sefydliad mewn cyfres o benderfyniadau seiliedig ar werthoedd.

Gwyddom na fydd y sefyllfa bresennol yn para am byth ac rydym wrthi'n gwneud cynlluniau'n barod am sut y byddwn yn dychwelyd i'r campws yn ddiogel. Rydym ni hyd yn oed yn archwilio sut y gall ein profiadau presennol weithredu'n sbringfwrdd am ffordd newydd o weithio ym Met Caerdydd sy'n galluogi ein staff a'n myfyrwyr i ffynnu'n fwy byth.

Diolch unwaith eto am ystyried Met Caerdydd a sut allech chi gyfrannu at ein cymuned a dymunaf bob lwc i chi gyda'ch cais.



Uchod: Owen Griffiths, myfyriwr PHD Met Caerdydd, yn gweithio ar ffônau'r GIG.



Uchod: Adran Bodiateg Met Caerdydd yn dychwelyd i'r gwaith-rhoesom gyfarpar amddiffyn i Gwm Taf a dychwelont y ffarf drwy ein cynorthwyo i'w holrhain.

● Ein hymateb i bandemig Covid-19

Yma ym Met Caerdydd rydym wedi parhau i barchu'n gwerthoedd yn ystod y pandemig coronafeirws byd-eang, gan gymhwyso ein hymagwedd foesegol i bob penderfyniad ac ymrwymiad a wnawn i'n myfyrwyr, ein staff a'r gymuned ehangach.

● Cefnogi ein myfyrwyr

Met Caerdydd oedd un o'r prifysgolion cyntaf yn y DU (a'r brifysgol gyntaf yng Nghymru) i ryddhau pob myfyriwr na fyddent yn dod yn ôl rhag trydydd tymor eu llety a oedd yn cael ei redeg gan y brifysgol. Roedd hyn yn golygu na fyddai myfyrwyr a oedd yn methu dychwelyd i'r campws o Ebrill 2020 ymlaen yn talu unrhyw ffioedd llety am dymor terfynol eu hastudiaeth.

I fyfyrwyr a barhaodd i fyw ar gampws (tua 60 o fyfyrwyr gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol a oedd yn methu dychwelyd adref oherwydd cyfyngiadau teithio a gadawyr gofal sy'n ystyried Met Caerdydd fel eu cartref), parhaom i darparu gwasanaethau arlwyio a rhoi cyflenwadau i breswylwyr yn wythnosol. Roedd y rhoddion yn cynnwys bara, pasta, nwyddau tun, barau protin a melysion.

Lansiodd Bwrdd Academiaidd y Brifysgol ymrwymiad dim niwed i bob myfyriwr, gan ddarparu diogelwch na fyddai'r un myfyriwr yn cael ei gosbi'n ddiangen yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys estyniad safonol o bythefnos ar bob aseiniad a throsi pob arholiad tymor terfynol yn asesiad ar-lein.

Ni oedd y brifysgol gyntaf yn y DU i symud holl wasanaethau cyngor a chymorth myfyrwyr ar-lein, sy'n golygu bod popeth o gyngor

gyrfaoedd i sgrinio am ddyslecsia ar gael bellach i bob myfyriwr o bell drwy gyfrwng gwasanaethau digidol.

● Cefnogi ein staff

Cyn y cyfyngiadau symud, Met Caerdydd oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ymrwymo i dalu cyflog llawn i bob aelod staff ar gyflog, contract achlysurol neu contract amharhaol, ni waeth am eu gallu i weithio o ganlyniad i Covid-19. Estynnodd hyn i dalu pob is-gontractiwr a staff a is-gontractiwyd (staff glanhau yn bennaf) eu cyflogau disgwylidiedig.

Nodwyd tua 200 aelod staff fel bod yn gymwys am absenoldeb ffwrlo, ac mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ategu tâl 80% y Llywodraeth er mwyn sicrhau bod yr holl staff dan sylw yn derbyn 100% o'u cyflog disgwylidiedig oddi wrth y Brifysgol.

Penderfynom ni yn wythnosau cynnar y pandemig i ddiogelu iechyd a llesiant staff a myfyrwyr. Roedd hyn yn golygu symud yr holl addysgu ar-lein, pythefnos cyn y cyfyngiadau symud, a gofyn i staff weithio o gartref. I gynorthwyo gyda'r newid hwn, gwnaethom estyn y gwasanaeth cwnsela cyfrinachol a gynigir i staff, darparu arweiniad am weithio'n hyblyg, a chreu mân safle pwrpasol ar fewnwyd y staff gyda chynghor am lesiant, cyfleoedd datblygiad personol ac awgrymiadau a chynghorion gan gymheiriaid..

Yn ogystal, gosododd ein mewnwyd y staff yn gwbl ganolog, gan arddangos llu o ymdrechion i godi arian am elusennau, sut i ymdopi â gorbryder a phroblemau iechyd meddwl o ganlyniad i weithio gartref mewn pandemig, ac amlygu enghreifftiau o weithio o bell a llwyddiant wrth addysgu.

● Cefnogi ein cymunedau

Rhoddodd yr adran gwyddor Fiofeddygol a seilir yn Ysgol Chwaraeon a Gwyddor Iechyd Caerdydd yr holl Offer Amddiffynnol Personol (PPE) i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, i'w defnyddio ar y rheng flaen yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Met Caerdydd oedd canolfan treialu model newydd o roi gwaed mewn partneriaeth â Gwasanaeth Gwaed Cymru. Yn nes ymlaen cafodd llwyddiant y model newydd hwn am roi gwaed ei gyflwyno ledled Cymru ac mae wedi dychwelyd i gampws Llandaf sawl gwaith. .

Cafodd preswylfeydd myfyriwr gwag eu cynnig i staff rheng flaen, gan gynnwys Heddweision Heddlu De Cymru a oedd yn methu dychwelyd adref o ganlyniad i gyfyngiadau gwarchod ac ynysu. Hefyd trefnwyd bod gwelyau a gwasanaethau ar gael i staff, myfyrwyr ac aelodau o'n cymuned a oedd angen lloches oherwydd eu bod yn wynebu bygythiad trais domestig a oedd yn cael ei waethgu gan y cyfyngiadau symud.

Lansiodd myfyrwyr hyfforddiant athrawon (TAR) gwricwlwm ar-lein i ddysgwyr CA3 ar ddechrau'r cyfnod cyfyngiadau symud, gyda chymorth darlithwyr yn y Brifysgol. Mewn un o'r mentrau cyntaf dan arweiniad myfyrwyr i gael ei lansio yn ystod yr argyfwng, ar hyn o bryd mae tua 30 o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn cyflenwi dosbarthiadau wythnosol sy'n ymdrin â'r Gymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

Dechreuodd academyddion a pheirianwyr o'n PDR ac Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd weithgynhyrchu feisorau a deunyddiau traul llawfeddygol eraill ar gyfer treialon clinigol, gan sborio stoc rheng flaen rhag cael ei ddefnyddio yn y labordai.

Mae arddangoswyr technegol Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd wedi bod yn cynhyrchu tarianau wyneb ar gyfer gweithwyr cartrefi gofal yn ardal Rhondda Cynon Taf, gan weithgynhyrchu tua 400 hyd yma.

IMewn partneriaeth â Nextbike a Phrifysgol Caerdydd, mae Met Caerdydd wedi ariannu 500 aelodaeth i'w cynllun seiclo grŵp i gynorthwyo gweithwyr rheng flaen i fynd a dod o'u gwaith, yn rhad ac am ddim.

Mae Canolfan y Diwydiant Bwyd a leolir ar gampws Llandaf wedi cefnogi'r diwydiant bwyd a diod gydag ystod o brosiectau, gan gynnwys llinell gyngor bwrsasol i fusnesau a helpu distyllwyr i drosi prosesau o gynhyrchu alcohol i gynhyrchu hylifau diheintio dwylo.



Uchod: Banc Gwaed ym Met Caerdydd, gosodon ni'r cyntaf o'i fath yng Nghymru.

● Cyfrannu at yr ymdrech genedlaethol

Ers i'r pandemig gychwyn, ymrwymodd Ysgol Chwaraeon a Gwyddor Iechyd Caerdydd ddau beiriant Thermo Fisher 7500 ABI Fast Platform i gynorthwyo ymdrechion profi cenedlaethol am Covid-19 yn y ganolfan genedlaethol gyntaf ym Milton Keynes.

Aeth staff ar secondiad a myfyrwyr PhD â phrofiad maes yn ôl i weithio ar y rheng flaen, gyda gwarant na fyddai unrhyw niwed i'w hastudiaethau na'u gwaith gan y Brifysgol.

Mae Ysgol Technolegau Caerdydd yn cynnal peilot am ddefnydd AI a roboteg mewn meddygfeydd meddygon cyffredinol i gynorthwyo'r meddygon a'r cleifion i nodi symptomau a chodi ymwybyddiaeth o Covid-19. Mae ail brosiect yn yr ysgol yn ymchwilio i sut mae'r tywydd yn effeithio ar daflwybr y feirws, gan ddefnyddio AI i fapio effaith fyd-eang y pandemig.

Mae academyddion Seicoleg yn yr Ysgol Chwaraeon a Gwyddor Iechyd wedi dod ynghyd gyda Phrifysgol Caerdydd i edrych ar agweddau'r cyhoedd tuag at y pandemig, gyda ffocws arbennig ar negeseuon y llywodraeth a'r cyngor sy'n cael ei roi.

Mae academyddion wedi rhoi cyngor i'r cyhoedd ehangach am risgiau ymosodiadau seiber a sut i amddiffyn eich hun, sut gall ymwybyddiaeth ofalgar wella creadigedd ac ymdeimlad o hunan-werth.



O'r brig, chwith i'r dde: Seremoni raddio Met Caerdydd yng Nghanolfan Mileniwm Cymru, Neuaddau Preswyl Plas Gwyn, Met Caerdydd, lle roesom lety i 60 o fyfyrwyr a'u bwydo, staff Plas Gwyn yn ymbellau'n gymdeithasol. Danfon cyflenwadau dŵr a roddwyd i staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

● Sicrhau dyfodol sefydlog

Canolbwyntiodd y cynllun strategol a ddatblygwyd yn 2016-2017 ar wella, arallgyfeirio a thwf i gryfhau cynladwydd y Brifysgol ac roedd penderfyniadau a wnaed yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf wedi golygu bod Met Caerdydd mewn sefyllfa ariannol gryf cyn i'r pandemig daro. Caniataodd y sefyllfa ariannol gryf hon i ni wneud nifer o benderfyniadau allweddol mewn perthynas â llesiant staff a myfyrwyr ar ddechrau cyfnod y cyfyngiadau symud.

Nid oes dwywaith y bydd y sefyllfa ariannol sy'n wynebu prifysgolion y DU yn heriol, ond, fel a gadarnhawyd mewn adroddiad diweddar gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, gyda'n cyllid cryf sy'n ganlyniad ffrydiau incwm amrywiol, cronfeydd wrth gefn a llif arian cadarn, mae Met Caerdydd yn y sefyllfa orau yng Nghymru i oroesi storm Covid-19.

● Creu'r gweithle newydd

Mae arolwg wedi cael ei lansio, a gomisiynwyd i ddysgu mwy am brofiadau staff o weithio o bell, ac i ddarganfod beth allai'r Brifysgol ei chymryd o brofiad y pandemig. Ei enw yw '#WhatNext?', ac rydym yn archwilio sut allai newidiadau i'n ffyrdd o weithio gefnogi set fwy hyblyg o egwyddorion gweithio yn y dyfodol.

Yr Athro Cara Aitchison

MA(Anrh), PgDRLP, Cert Ed, MA, PhD, FAcSS, FRGS, FHEA, FLSW

AM Y BRIFYSGOL

Mae Met Caerdydd, sydd wedi'i lleoli mewn prifddinas fyrlymus Ewropeaidd, yn brifysgol fyd-eang lewyrchus a sefydlwyd yn 1865 ac mae hanes cyfoethog, sefydlog iddi. Mae'r Brifysgol, sydd â phortffolio academiaidd sydd wedi'i gyfeirio tuag at addysg ac ymchwil a fydd yn canolbwyntio ar ymarfer ac a gydnabyddir yn broffesiynol, yn cynnig mwy na 250 o raglenni a addysgir a fydd yn canolbwyntio'n gryf ar gyflogadwyedd ac ar addysgu rhagorol.

Mae gan y Brifysgol tua 20,000 o fyfyrwyr sydd wedi ymrestru ar gyrsiau yng Nghaerdydd a gydag 16 o bartneriaid cydweithredol ar draws y byd. Daw ein myfyrwyr o fwy na 140 o wledydd ac mae ein hymrwymiad i wella rôl addysg mewn cysylltiadau rhyngwladol a diplomyddiaeth ddiwylliannol yn un ddiffuant ynghyd â galluogi pob un o'n myfyrwyr i ddatblygu yn ddinasyddion byd-eang. Mae cryfderau sylweddol gan y Brifysgol o ran cyflawni rhaglenni symudedd staff a myfyrwyr rhyngwladol ac mae'r cwricwlwm israddedig a phrofiad ehangach y myfyrwyr yn cynnwys ystod eang o gyfleoedd symudedd a mentrau cyflogadwyedd blaengar.

Mae ein Cynllun Strategol yn canolbwyntio ar alluogi'r myfyrwyr i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn raddedigion **EDGE** (Ethical, Digital, Global, Entrepreneurial). Dechreuwyd defnyddio'r dull hwn ar ffurf EDGE Met Caerdydd: dull cwricwlaidd newydd wedi'i ddylunio i roi'r sgiliau gydol oes hyn yn ganolog i brofiad Met Caerdydd y bydd gwybodaeth bwnc-benodol pob rhaglen radd yn cael ei datblygu o'u cylch. Mae ymchwil ac arloesedd yn greiddiol i'n gwaith addysgu ac yn yr ymarfer REF diweddaraf yn 2014, gosodwyd y Brifysgol ar y brig ymhlith prifysgolion modern o ran ansawdd ei hymchwil.

Diben y Brifysgol yw cyflawni addysg, ymchwil ac arloesedd a fydd yn uchel eu hansawdd a'u heffaith a fydd yn canolbwyntio ar ymarfer ac a gydnabyddir yn broffesiynol, mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a diwydiant. Drwy gydweithio a thrwy hyrwyddo creadigrwydd ac amrywiaeth, rydym yn ceisio rhoi'r modd i bob myfyrwr gael gwireddu eu potensial i gael gwneud cyfraniadau eithriadol yn raddedigion a chynhyrchu twf economaidd cynaliadwy a chydlynad cymdeithasol i'n dinas, i Gymru ac i'r byd ehangach.

Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar ddau gampws yng ngogledd-orllewin a gogledd-ddwyrain dinas Caerdydd. Mae Campws Llandaf, sydd wedi'i leoli yn y gogledd-orllewin yn nythu mewn ardal hyfryd rhwng Cadeirlan Llandaf ac Afon Taf, yn gartref i Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, Ysgol Reoli Caerdydd, Ysgol Dechnolegau Caerdydd a rhan o Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd. Yn ogystal ag ystod eang o wasanaethau dysgu, addysgu a chymorth myfyrwyr, mae Campws Llandaf yn gartref i fannau eang i gynnal arddangosfeydd, lletygarwch a digwyddiadau. Mae Campws Llandaf yn gartref hefyd i Ganolfan flaenllaw y Diwydiant Bwyd, Zero2Five ac amrywiaeth o ddarpariaethau gwyddorau iechyd, gan gynnwys labordai arbenigol, Canolfan Bodiateg a Chanolfan Therapi Iaith a Lleferydd sy'n cefnogi darpariaeth y GIG drwy fod yn hygyrch i'r cyhoedd. Gerllaw mae Tŷ Alexander, a ddaeth yn rhan o'r Brifysgol yn ddiweddar, bellach yn gartref i'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Dylunio ac Ymchwil fyd-enwog.

Mae gan Gampws Cyncoed yng ngogledd-ddwyrain y ddinas gyfleusterau chwaraeon eang o safon ryngwladol gan gynnwys NIAC (Y Ganolfan Genedlaethol Athletau Dan Do) ac mae'n gartref i Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd ac Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd.

Mae'r Brifysgol wedi datblygu cynllun mawr ar gyfer ein campysau gyda gweledigaeth uchelgeisiol sy'n edrych ymlaen i 2032 gyda'r nod o greu amgylchedd campws o safon byd a fydd â lles yn greiddiol iddo. Bydd rhan gyntaf y cynllun hwn, a gyflawnir rhwng 2020 a 2026, yn cynnwys adeiladau newydd, ailwampio ac addasu ein stadau presennol yn sylweddol at ddibenion gwahanol, gwella tir y cyhoedd ac ehangu mynediad i'n hamgylchedd naturiol. Bydd y gwaith sydd ar y gweill eisoes yn gweld Ysgol Dechnolegau Caerdydd yn cael cartref newydd ar Gampws Llandaf yn 2020.

🔗 **Llwytho crynodeb o'n Cynllun Strategol 2017/18 - 2022/23 i lawr yma.**



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

CYNLLUN STRATEGOL

2017/18 - 2022/23

MEHEFIN 2017

EIN BLAENORIAETHAU

1. Prifysgol sy'n Gweithredu ar sail Gwerthoedd

Bydd ein Prifysgol yn hyrwyddo *Creadigrwydd, Amrywiaeth, Rhyddid ac Arloesedd* drwy gynnal partneriaethau cadarn sy'n arwain at weddnewid addysgol, gwaith ymchwil sy'n cael effaith, twf economaidd cynaliadwy, cydlyniant cymdeithasol, ac iechyd a llesiant.

2. 'EDGE' Met Caerdydd

Bydd ein Prifysgol yn gwella ansawdd a deilliannau addysgu a'r profiad ehangach i fyfyrwyr drwy roi 'EDGE Met Caerdydd' ar waith, gan alluogi pob myfyriwr i ddatblygu sgiliau, profiad, gwybodaeth, hyder a chryfder *Moesegol, Digidol, Byd-eang ac Entrepreneuriaidd*.

3. Ysgol Dechnolegau Caerdydd: 4D: Dyfodol Data / Digidol / Dylunio

Bydd ein Prifysgol yn sefydlu Ysgol sy'n canolbwyntio ar Ddyfodol Data, Digidol a Dylunio, wedi'i datblygu mewn partneriaeth â chwmnïau technoleg. Bwriedir lleoli yr Ysgol ar gampws pwrpasol newydd yng nghanol y ddinas gyda lle i 2,000 o fyfyrwyr erbyn 2022. Bydd yr Ysgol yn cynnig addysg, ymchwil ac arloesi gan ateb galw myfyrwyr a diwallu anghenion cyflogwyr ym meysydd cyfryngau digidol a thechnoleg glyfar, gwyddor data a gwybodeg, a dylunio technoleg a pheirianneg.

4. Cardiff Global

Bydd ein Prifysgol yn cyflwyno rhaglen 'Caerdydd Byd-eang', gyda *Colegau Agored Caerdydd* ac *Academiau Byd-eang* yn cysylltu Caerdydd â'n partneriaid byd-eang. Bydd Colegau Agored Caerdydd yn darparu llwybrau datblygu o *ysgolion* a cholegau, gan helpu i ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg a meithrin ymgysylltiad dinesig â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd *Academiau Byd-eang* yn cynnig darpariaeth ôl-radd a darpariaeth ymchwil ryngddisgyblaethol a rhyngwladol effeithiol ym meysydd lle mae'r Brifysgol yn arwain y byd.

5. Twf wedi'i Reoli ym Mhob Ysgol

Bydd ein Prifysgol yn cynyddu nifer y myfyrwyr drwy ehangu ei chyrraedd diaddeiddol, cynyddu ei phortffolio o raglenni a gwella ei phartneriaeth â chyflogwyr a rhanddeiliaid. Bydd y ddarpariaeth yn seiliedig ar y canlynol: safonau academaidd uchel ac addysgu sy'n seiliedig ar ymchwil; staff hynod fedrus a chymwysedig sydd â chysylltiadau â byd diwydiant; lefelau uwch o symudedd myfyrwyr a staff ac agwedd ryngwladol; a dysgu ac asesu sy'n cael eu gwella gan dechnoleg ac sy'n arwain at lefelau uwch o gyflogaeth i raddedigion.

6. Twf ym meysydd Ymchwil ac Arloesedd

Bydd ein Prifysgol yn datblygu ei llwyddiant fel prifysgol fodern yn y DU sy'n gwneud gwaith ymchwil o'r safon uchaf (REF 2014), gan hyrwyddo ei henw da drwy sicrhau twf sylweddol o ran lefel, ansawdd, gwerth ac effaith ei gwaith ymchwil ac arloesedd.

7. Cydweithio rhwng Darpariaeth ar y Campws a Darpariaeth oddi ar y Campws

Bydd ein Prifysgol yn datblygu ei darpariaeth Addysg Drawsgenedlaethol sy'n arwain y sector, a'i model unigryw o gydweithio rhyngwladol, er mwyn hwyluso lefelau uwch o symudedd myfyrwyr a sicrhau bod mwy o fyfyrwyr ein partneriaid rhyngwladol yn dod i Met Caerdydd i astudio cyrsiau ôl-radd.

EIN DIBEN

Diben y Brifysgol yw gweithio mewn partneriaeth â'n myfyrwyr a'r byd diwydiant i ddarparu addysg, ymchwil ac arloesedd o ansawdd uchel sy'n cael effaith sylweddol, sy'n seiliedig ar ymarfer ac sydd â chydabyddiaeth broffesiynol. Drwy gydweithio a hyrwyddo creadigrwydd ac amrywiaeth, byddwn yn galluogi pob myfyriwr i wireddu ei botensial yn llawn i wneud cyfraniadau rhagorol ar lefel raddedigion a chreu twf economaidd a chydlyniant cymdeithasol cynaliadwy ar gyfer ein Dinas, Cymru a'r byd yn ehangach.

EIN PERFFORMIAD

Bydd perfformiad y Brifysgol yn cael ei fesur gan lwyddiant ein staff, ein myfyrwyr a'n rhanddeiliaid, a fydd yn gweithio mewn partneriaeth i wella deilliannau i raddedigion, ymgysylltiad dinesig, dylanwad rhyngwladol ac effaith economaidd.

EIN COLOFNAU

Mae tair colofn - Lleoedd, Pobl a Pherfformiad - yn helpu i gyflawni diben y Brifysgol a'i saith blaenoriaeth.

LLEOEDD

Ar ein dau *Campws*, mae staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid yn gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a darparu addysg, ymchwil ac arloesedd sy'n gweddnewid bywydau. Mae'r pum Ysgol yn cynnig addysg ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd â chydabyddiaeth broffesiynol er mwyn cefnogi datblygiad dinesig, economaidd a rhyngwladol.

Bydd ein menter Caerdydd Byd-eang, sy'n cynnwys Colegau Agored Caerdydd ac Academiau Byd-eang, yn sicrhau bod ein gweithgareddau lleol a byd-eang yn atgyfnerthu ei gilydd.

Bydd ein *Canolfannau Ymchwil ac Arloesedd* yn cydweithio â'n rhaglenni a addysgir ym meysydd celf a dylunio, busnes a rheoli, addysg a pholisi cymdeithasol, chwaraeon a'r gwyddorau iechyd, a thechnolegau.

POBL

Ein *Myfyrwyr a'n Staff* yw ein hased pwysicaf. Drwy greu amgylchedd lle mae unigolion yn ffynnu, bydd y Brifysgol yn ffynnu hefyd, gan ddarparu addysg, ymchwil ac arloesi o ansawdd uchel sy'n cael effaith sylweddol. Bydd *EDGE Met Caerdydd* yn galluogi'r holl fyfyrwyr i ddatblygu sgiliau, profiad, hyder a chryfder drwy becyn cydlynol o leoliadau, prosiectau, interniaethau, gwirfoddoli a symudedd rhyngwladol.

Bydd agwedd sy'n seiliedig ar werthoedd at ddiwylliant ac ymarfer sefydliadol yn helpu i ddatblygu amgylchedd gwaith cadarnhaol a chydweithredol sy'n grymuso pobl. Bydd strwythurau a swyddogaethau Gwasanaethau Proffesiynol a Swyddi Academaidd yn cael eu hailffodelu i ddatblygu diwylliant gwasanaethu myfyrwyr sy'n arwain y sector.


PERFFORMIAD

Mae'r Cynllun Strategol yn mapio cyfres o Fesurau Llwyddiant blynyddol ar ffurf targedau a fydd yn cael eu cyrraedd gan bawb drwy gydweithio.

Bydd ein perfformiad yn seiliedig ar ein gwerthoedd cyffredin, sef *Creadigrwydd, Amrywiaeth, Rhyddid ac Arloesi*.

Rydym yn disgwyl i bawb yn y Brifysgol geisio sicrhau rhagoriaeth yn eu holl waith drwy rannu ein gwerthoedd a'n hymddygiad cyffredin ym meysydd *Arweinyddiaeth, Ymddiriedaeth, Dewrder ac Atebolrwydd*.

STRWYTHUR GWEITHREDOL A SEFYDLIADOL



YSGOLION ACADEMAIDD Y BRIFYSGOL

Mae'r Brifysgol wedi'i strwythuro i bum Ysgol Academaidd a fydd yn cynnig mwy na 250 o raglenni academaidd a phroffesiynol gwahanol.

● Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Mae Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd, sy'n Ysgol Gelf a Dylunio Brydeinig â 150 mlynedd o hanes, wedi'i lleoli ar Gampws Llandaf ac mae'n gartref i fyfyrwyr sy'n unfryd o ran eu huchelgais a gwir angerdd dros ymholi creadigol. Maen nhw'n wneuthurwyr ac yn feddylwyr ym meysydd pensaernïaeth, dylunio, ffasiwn, celfyddyd gain ac amrywiaeth o ddisgyblaethau crefft. Mae'r cwricwlwm yn arloesol ac yn rhyngddisgyblaethol, yn caniatáu cydweithrediad a chyfleoedd trawsffurfio ac yn uno pynciau STEM â chynhwysion creadigol allweddol Celf a Dylunio. Mae mynediad i gyfleusterau o'r radd flaenaf a chyfle i weld ymchwil arloesol yn galluogi'r myfyrwyr i lywio eu siwrneiau eu hunain i gael dod yn ymarferwyr, academyddion y dyfodol, entrepreneuriaid, graddedigion cyflogadwy a chyflogwyr y dyfodol.

Mae'r Ysgol yn gartref hefyd i FabLab Caerdydd, y Labordy Profiad Canfyddiadol a nifer o fentrau mawr ym maes ymchwil ac arloesedd a fydd yn cydlynu o gylch canfyddiad gweledol a dylunio defnyddiwr-ganolog gan gysylltu disgyblaethau o gelfyddyd gain hyd at gyfrifiadureg.

● Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Mae Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd wedi'i lleoli'n bennaf ar Gampws Cyncoed a bydd yn cynnig ystod amrywiol ac ysgogol o raglenni israddedig ac ôl-raddedig mewn addysg, y dyniaethau a pholisi cymdeithasol.

Bydd yr Ysgol, a fydd yn gweithio'n gydweithredol gyda phartneriaid, ysgolion a sefydliadau allanol, yn sicrhau bod rhaglenni yn benodol i ddisgyblaeth, yn arloesol ac yn berthnasol yn broffesiynol. Bydd llawer o'n myfyrwyr yn ymgymryd â lleoliadau gwaith i sicrhau eu bod yn barod ar gyfer byd gwaith neu astudio academaidd pellach, a bydd ein BA (Anrh) newydd mewn Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig, a gaiff ei gyflawni'n

gyfan gwbl mewn partneriaeth ag ysgolion, yn cadarnhau ein safle yn unig ddarparwr addysg gychwynnol i athrawon yn Ne-Ddwyrain Cymru..



● Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Mae Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd yn ganolfan ragoriaeth gydnabyddedig yn y DU ac mae wedi sefydlu enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ansawdd ei haddysgu, ymchwil ac arloesedd ym meysydd chwaraeon a gwyddorau iechyd. Ein gweledigaeth yw bod yn adnabyddus yn fyd-eang am ein haddysg a fydd yn canolbwyntio ar gyflogadwyedd a'n hymchwil trawiadol.

Mae portffolio cryf o raglenni rhyngddisgyblaethol gan yr Ysgol, sydd wedi'i lleoli ar Gampws Cyncoed a Champws Llandaf, a fydd yn rhoi'r cyfle i'n myfyrwyr ddatblygu gwybodaeth a sgiliau, i fagu profiad ymarferol ac i ddefnyddio cyfarpar a chyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae llawer o'n rhaglenni wedi'u hachredu'n broffesiynol i gael cwrdd â gofynion y proffesiynau gofal iechyd a chwaraeon, ac mae nifer yn unigryw o fewn Cymru.

Mae diwylliant ymchwil llewyrchus gan yr Ysgol â mwy na 100 o fyfyrwyr PhD ar draws amrywiaeth o ddisgyblaethau'r Ysgol. Cafodd cyflwyniad y Brifysgol i REF 2014 o ran Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer, Hamdden a Thwristiaeth ei osod yn gydradd 7fed yn gyffredinol yn rhestrir THE. Mae'r Ysgol yn gartref hefyd i'r Ganolfan Diwydiant Bwyd fyd enwog, y Ganolfan Dadansoddi Perfformiad a'r Ganolfan Iechyd a Gweithgaredd Corfforol.

Mae record lwyddiannus gan y Brifysgol mewn chwaraeon perfformio a chryfheir hyn gan fuddsoddiad pellach mewn cyfleusterau, cryfder a chyflyru, a dadansoddi perfformiad. Bydd Campws Cyncoed hefyd yn gwneud cyfraniad dinesig mawr i chwaraeon, iechyd a lles drwy agor ei ddrysau i fwy na 2,500 o bobl ifanc bob wythnos a fydd yn cymryd rhan mewn rhaglenni chwaraeon a gynigir gan y Brifysgol a'n partneriaid.



● Ysgol Reoli Caerdydd

Mae'r Ysgol, sydd wedi'i lleoli mewn adeilad eithriadol o'r radd flaenaf gan gynnwys labordai dynodedig ar gyfer marchnata digidol a ffasiwn, Swit Masnachu Bloomberg a llys barn ffug i gefnogi ein rhaglen LLB newydd yn y Gyfraith i israddedigion, yn cynnig ystod eang o raglenni a fydd wedi'u dylunio mewn partneriaeth â busnes a diwydiant i sicrhau y bydd ein myfyrwyr yn gyflogadwy iawn.

Bydd Ysgol Reoli Caerdydd hefyd yn addysgu miloedd o fyfyrwyr yn ein 16 coleg partner o gwmpas y byd gan gynnwys llawer o fyfyrwyr a fydd yn symud ymlaen i raddau Meistr a graddau uwch ar ein campws yng Nghaerdydd.

● Ysgol Dechnolegau Caerdydd

Mae Ysgol Dechnolegau Caerdydd wedi'i lleoli ar Gampws Llandaf a chafodd ei lansio yn 2018. Mae mwy na 500 o fyfyrwyr gan yr Ysgol newydd yma eisoes, yn canolbwyntio ar gyfrifiadureg, technoleg clyfar, gwyddor data, gwybodeg a pheirianneg. Mae'r Ysgol yn gweithio mewn partneriaeth gyda diwydiant a bydd hefyd yn cynnig rhaglenni prentisiaethau gradd gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Mae'r Ysgol, wrth ymateb i alw gan fyfyrwyr ac anghenion cyflogwyr, wedi'i dylunio i gefnogi'r nifer gynyddol o gwmnïau digidol a thechnoleg sy'n clystyru ym Mhrifddinas-Ranbarth

Caerdydd ac mae'n allweddol i ddatblygu safle cryf presennol y Brifysgol yn un o'r 12 Sefydliad AU gorau yn y DU o ran graddedigion yn agor

● Canolfannau Rhagoriaeth

Mae canolfannau rhagoriaeth gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ym mhob un o'i Hysgolion ac mae pob un o'r canolfannau hyn yn canolbwyntio ar ddylunio a pherfformiad er mwyn gwneud y gorau o botensial pobl a thwf economaidd.

Mae **PDR**, Canolfan Ddylunio ac Ymchwil Ryngwladol y Brifysgol yn un o ganolfannau dylunio mwyaf blaenllaw y DU a bydd yn gweithio gyda chwmnïau a sefydliadau o gwmpas y byd i gael datblygu cynhyrchion, gwasanaethau a datblygiadau newydd. Mae ei hymchwiliad mewn arloesedd a dylunio yn eang a chafodd ei chydnabod yn 2015 â Gwobr Dathliad y Frenhines am ei gwaith ar ddefnyddio technolegau sganio digidol 3D mewn llawfeddygaeth y genau a'r wyneb.

Mae **FabLab Caerdydd** a'r Labordy Profiad Canfyddiadol ynghyd â datblygiadau newydd eraill mewn technoleg canfyddiad gweledol, wedi sefydlu clwstwr o arbenigedd a fydd gyda'r gorau yn y byd ac a fydd yn gwella ymchwil ac arloesedd y Brifysgol mewn dylunio a pherfformiad dynol.

EIN CYSYLLTIADAU A’N PARTNERIAETHAU BYD-EANG



Mae gweithio mewn partneriaeth gyda’n myfyrwyr a’n rhanddeiliaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang yn nodwedd o Brifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygu dinasyddion dinesig a byd-eang ac mae myfyrwyr o fwy na 140 o wledydd gennym ar hyn o bryd yn astudio ar gyfer dyfarniadau. Mae symudedd byd-eang yn elfen allweddol o ethos Met Caerdydd a gall y myfyrwyr a'r staff astudio mewn mwy na 1,000 o brifysgolion ar draws y byd, gyda chefnogaeth ariannol ar gyfer rhaglenni symudedd oddi wrth y Brifysgol a'i phartneriaid ynghyd ag Ysgoloriaethau Santander ac, ar hyn o bryd, y Comisiwn Ewropeaidd.

Met Caerdydd yw un o brifysgolion mwyaf rhyngwladol y DU gyda phartneriaethau ar draws y byd. Bydd llawer o raddau'r Brifysgol a gynigir yng Nghaerdydd yn cael eu rhedeg hefyd gan ein 16 prifysgol a choleg partner. Gall myfyrwyr yng Nghaerdydd astudio rhan o'u gradd mewn prifysgol partner a gall myfyrwyr ar raddau Met Caerdydd yn ein sefydliadau partner ddewis astudio rhan o'u rhaglen yng Nghaerdydd. Mae ein partneriaid presennol yn Bahrain, Bangladesh, Bwlgaria, Tsieina, Cyprus, Gwlad Groeg, yr Aifft, Ethiopia, India, Libanus, Malaysia, Morocco, Nepal, Oman, Fietnam, Singapore a Sri Lanka.

Yng Nghymru mae partneriaethau eang gan y Brifysgol gyda diwydiant, llywodraeth a'r trydydd sector a bu'n allweddol yn natblygiad llawer elfen o bolisi ac ymarfer economaidd ac addysg, gan gynnwys datblygiad diweddar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

Mae cysylltiadau cryf gan y Brifysgol gyda cholegau AB ar draws Cymru, yn enwedig gyda Choleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Pen-y-bont a Choleg Gwent a'r ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Un o flaenoriaethau Cynllun Strategol y Brifysgol yw datblygu ystod ehangach o lwybrau dilyniant priodol o'n colegau partner i raglenni israddedig yn ein campysau yng Nghaerdydd.

O fewn Dinas Caerdydd, o ganlyniad i gytundeb menter ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd, gwelwyd Chwaraeon Met Caerdydd yn mynd yn gyfrifol am ddarparu Datblygiad Chwaraeon ar gyfer y ddinas. Mae'r fenter hon wedi cryfhau perthynas y Brifysgol gyda rhanddeiliaid allweddol megis Chwaraeon Cymru a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, wedi rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr ennill sgiliau ymchwil a phrofiad gwaith, ac wedi helpu i ddatblygu ffocws y Brifysgol ar sicrhau bod chwaraeon, iechyd a lles yn ganolog ar ein campysau.

DYSGU AC ADDYSGU EITHRIADOL

Mae enw da cydnabyddedig gan Met Caerdydd am ddysgu, addysgu ac asesu sy'n paratoi'r myfyrwyr i sicrhau deilliannau graddedigion a bywydau boddhaus. Mae ein ffyrdd o fynd ati yn seiliedig ar: safonau academiaidd uchel; gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr; dysgu gweithredol; profiad gwaith; gwirfoddoli; symudedd rhyngwladol; dinasyddiaeth fyd-eang; ac addysgu a fydd wedi'i oleuo gan ymchwil.

Bydd 'EDGE Met Caerdydd' yn galluogi pob myfyriwr i ddatblygu sgiliau, profiad, gwybodaeth, hyder a gwynwch Moesegol, Digidol, Byd-eang ac Entrepreneuriaidd yn gryfderau craidd y bydd eu pwnc gradd arbenigol yn cael ei ddatblygu a'i gyflawni o'u cych (*Cynllun Strategol, 2017/18 - 2022/23*).


Mae dosbarthiadau bach, cyswllt dosbarth uchel a fframwaith cryf o Diwtoriaid Personol a Chyfarwyddwyr Rhaglenni yn cefnogi'n dull person-ganolog. Mae Met Caerdydd yn ymrwymedig i ddarparu cyfleoedd dysgu cefnogol ac amgylcheddau a chyfleusterau sy'n hybu dilyniant, boddhad a llwyddiant y dysgwyr. Nod ein Strategaeth Ymgysylltiad Myfyrwyr 2018-2023, a gynhyrchwyd mewn partneriaeth ag Undeb y Myfyrwyr a'r myfyrwyr, yw sicrhau bod mynediad teg i gyfleoedd sy'n hybu ac yn annog ymgysylltiad academiaidd a llwyddiant myfyrwyr. Y canlyniad yw bod yr adnoddau gan ein myfyrwyr i lewyrchu nid yn y Brifysgol yn unig ond mewn swyddi ac mewn bywyd y tu hwnt i'w hastudiaethau, boed hynny yng Nghymru neu yn y byd ehangach.

Mae ein ffocws ar gyflogadwyedd wedi sicrhau y bydd 96% o'n graddedigion yn cael swyddi neu'n astudio ymhellach o fewn 6 mis iddyn nhw raddio, a bydd ein tîm entrepreneuriaeth yn helpu myfyrwyr a graddedigion i wireddu eu huchelgeisiau busnes (DHLE 2017). Dros y tair blynedd ddiwethaf, gosodwyd y Brifysgol yn y 12 uchaf ymhlith mwy na 160 o sefydliadau addysg uwch yn y DU am nifer y busnesau newydd y bydd ein graddedigion yn eu dechrau, ac o ran hyn y Brifysgol yw'r orau yng Nghymru.

Dyfarnwyd statws Arian i Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu 2017: un o ond pedair prifysgol yng Nghymru i gael y safon yma. Yn arolwg mwyaf diweddar NSS (2019), roedd 85% o'r myfyrwyr ym Met Caerdydd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn gyffredinol yn fodlon ar ansawdd eu cwrs.

Mae record hir a llwyddiannus gan y Brifysgol o gyflawni rhaglenni hyfforddi uchel eu safon i athrawon a'r Brifysgol hefyd yw unig ddarparwr Hyfforddiant Cychwynnol i Athrawon yn Ne Ddwyrain a Chanolbarth Cymru. Rydym yn ymhyfrydu'n fawr yn ein haddysgu ac mae'r nifer uchaf o Gymrodorion Addysgu Cenedlaethol yn unrhyw brifysgol yng Nghymru gennym; mae mwy nag 86% o'r staff ar gontractau academiaidd yn rhai sydd wedi'u 'cymhwyso i addysgu' sy'n cynnwys cydnabyddiaeth cymrodoriaeth, mae 79% o'r staff yn aelodau o AdvanceHE ac mae 49 o'r staff wedi'u cydnabod yn Brif neu'n Uwch Gymrawd, ag 11 o'r rhain wedi'u cydnabod gan baneli a gynhaliwyd yn 2018/19. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, derbyniodd y Brifysgol glod mewn nifer o ffyrdd am ein haddysgu, am brofiad ein myfyrwyr a'u llwyddiant a'n cynllun yw adeiladu ar y llwyfan cadarn yma i gael sicrhau mwy o llwyddiant eto mewn partneriaeth â'n myfyrwyr.

Yn y flwyddyn academiaidd 2019/20 croesawyd y myfyrwyr cyntaf ar bron 20 o raglenni gradd newydd, gan gynnwys BSc Gwyddor Data, swit o 6 rhaglen Busnes a Rheoli newydd a BA Addysg Gynradd gyda Statws Athro Cymwysedig newydd gan dderbyn mwy nag 80 o fyfyrwyr newydd. Bydd 20 rhaglen newydd arall, gan gynnwys LLB yn y Gyfraith, BA Pensaernïaeth, a BEng/ MEng Peirianeg Roboteg yn derbyn eu carfannau cyntaf yn 2020/21.



YMCHWIL AC ARLOESED D A FYDD YN GWNEUD GWAHANIAETH

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ymgymryd ag ymchwil a fydd ar flaen y gad o ran creu a chymhwyso gwybodaeth newydd. Mae modd cymhwyso'n hymchwil i fusnes, diwydiant, y proffesiynau a'r gymuned ac mae ein gweithgareddau arloesedd wedi'u halinio â phortffolio academiaidd a fydd yn gwyro tuag at addysg, ymchwil ac arloesedd a fydd yn canolbwyntio ar ymarfer ac wedi'i gydnabod yn broffesiynol.

Bydd gweithgareddau ymchwil ac arloesedd y Brifysgol yn effeithio ar gelf a dylunio, busnes a rheoli, addysg a pholisi cymdeithasol, chwaraeon a gwyddorau iechyd, a thechnolegau digidol, data a dylunio. Ymhlith cryfderau allweddol ymchwil rhyngddisgyblaethol a rhyngwladol y Brifysgol mae'r rheiny a fydd yn gwella perfformiad dynol a dylunio cynhyrchion.

Mae'r staff yn ymwneud ag amrywiaeth o bethau newydd â gweithgaredd ymchwil yn sail iddyn nhw gan gynnwys Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth, ymgynghori, cydweithredu, ymchwil a hyfforddi o dan gontract. Mae sefydliadau adnabyddus, megis Logitech Allergan, GE Healthcare, Kenwood, Cymdeithas Adeiladu'r Principality, Banc Canolog Ewrop, Ford, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, i gyd wedi ymddangos yn ein portffolio o bartneriaid cyfnewid gwybodaeth ac ymchwil cymhwysol.

Ag enw da rhyngwladol cynyddol, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygu ei phrif grwpiau ymchwil, cefnogi meysydd ymchwil newydd a gwireddu cynlluniau uchelgeisiol o ran REF 2021.

Dangosodd canlyniadau REF 2014 fod 80% o waith y Brifysgol a gafodd ei gyflwyno wedi'i raddio yn 'rhagorol yn rhyngwladol' (3*) neu'n 'arweinydd byd' (4*), ac o ganlyniad fe wnaeth yTimes Higher Education osod Met Caerdydd ar y brig ymhlith 'prifysgolion ôl-92' (ac yn safle 41 yn gyffredinol). O ran 'effaith' roedd Met Caerdydd yn safle 50 yn gyffredinol ac yn ail ymhlith 'prifysgolion ôl-92 yn y DU'.

Mae'r Cynllun Strategol yn amlinellu cynnig ar gyfer creu 'Academiau Byd-eang' i ddatblygu darpariaeth ymchwil ac ôl-raddedig a addysgir sy'n rhyngwladol, yn rhyngddisgyblaethol ac yn drawiadol. Mae Academiau Byd-eang yn adeiladu ar feysydd o gryfder ymchwil ar draws y Brifysgol, gan annog gwaith rhyngddisgyblaethol ac ymateb i

heriau byd-eang newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg. Mae hyd at bum Academi Fyd-eang yn yr arfaeth dros oes y Cynllun Strategol ac mae tair wedi'u sefydlu eisoes ym meysydd Iechyd a Pherfformiad Dynol, Dylunio sy'n Canolbwyntio ar Bobl a Gwyddor, Diogelwch a Sicrhad Bwyd.

Meysydd Ymchwil Allweddol:

● Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Pensaerniaeth a thechnoleg dylunio pensaerniol | Hanes, theori ac athroniaeth Celf | Celf a Gwyddoniaeth yn cydweithredu | Cerameg | Technoleg ddigidol greadigol | Hanes, theori ac athroniaeth dylunio | Arferion adeiladu ecolegol | Rhyngweithio ymgorfforedig | Celfyddyd Gain | Gwasanaethau peirianeg-adeiladu | Ynni amgylcheddol | Dylunio synhwyraidd | Amgylchedd adeileidig cynaliadwy | Dylunio a'r defnyddiwr yn ganolog.

● Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Addysg oedolion ac addysg barhaus | Cyfryngau cyfoes | Ysgrifennu creadigol | Drama | Polisi addysg | Technoleg addysgol | Saesneg | Addysg Uwch | Iaith mewn addysg | Addysg cerddoriaeth | Dysgu awyr agored | Addysg gynradd a blynyddoedd cynnar | Addysg gwyddoniaeth.

● Ysgol Reoli Caerdydd


Arweinyddiaeth greadigol a menter | Rheoli digwyddiadau | Syniadaeth ddarvoudus | Rheoli yn y sector cyhoeddus | Systemau ac ynni adnewyddadwy | Cynaliadwyaeth | Twristiaeth | Llif gwerth | Y diwydiant gwinoedd.

● Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Heneiddio a iechyd cardiofasgwlar | Bwyd, maeth a iechyd | Iechyd a rheoli risgiau | Dadansoddi perfformiad | Ffisioleg | Cymdeithaseg ac athroniaeth chwaraeon | Chwaraeon, ymarfer a seicoleg iechyd | Biomecaneg chwaraeon | Hyfforddi chwaraeon a phedagogeg | Datblygu a rheoli chwaraeon | Anafiadau chwaraeon ac adfer.

● Ysgol Dechnolegau Caerdydd

AI a roboteig | Peirianeg gymhwysol a rheoli | Cyfrifiadura a gwybodeg | Gwyddor data | Diwydiant 4.0 a pheirianeg meddalwedd | Peiriannau'n dysgu | Amlgyfrwng a gemau, AR a VR | Rhwydweithio: synwryddion, wifi, diogelwch | Delweddu a graffigwaith.



CAERDYDD

Mae prifddinas Cymru wedi newid yn rhyfeddol dros y ddau ddegawd diwethaf gan ddatblygu ei hamgylchedd a'i seilwaith i gefnogi poblogaeth sy'n tyfu, busnesau sy'n gynyddol ddatblygu a buddsoddi mewn cyfleusterau chwaraeon a diwylliannol o safon byd.

Mae'r cyn ddociau wedi'u hadnewyddu i ffurfio glan dŵr gwych Bae Caerdydd sydd, yn ogystal ag yn darparu cyfleoedd hamdden awyr agored, yn gartref i Ganolfan Mileniwm Cymru a Cherddorfa'r BBC ac Opera Cenedlaethol Cymru ynghyd â Senedd Cymru a Roald Dahl Plass. Mae Caerdydd heddiw yn gyrchfan Ewropeaidd cyffrous ac yn brifddinas sy'n hawdd byw ynddi.

Caerdydd yw'r brifddinas Ewropeaidd agosaf i Lundain a chyn hir bydd modd cyrraedd Llundain ar y trên mewn llai na 100 o funudau. Disgwylir mai Caerdydd fydd y ddinas gyflymaf ei thwf yn y DU dros y 20 mlynedd nesaf; mae'n ddinas ifanc a thalentog yn barod i dyfu'n economaidd a lle na fu rôl addysg uwch erioed yn bwysicach.

Mae Caerdydd hefyd yn gartref i Amgueddfa Genedlaethol Cymru, i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan gerllaw ac i'r adeiladau dinesig hynod o 'drawiadol a'r aceri lawer o dir parciau sy'n ffurfio 'ysgyfaint gwyrdd' y ddinas sy'n ymestyn bob cam o Fae Caerdydd i Gampws y Brifysgol yn Llandaf, 4 milltir i'r gogledd. Er y twf cyflym yn ddiweddar, mae Caerdydd yn parhau i fod yn ddinas gyfeillgar. Mae'n ddinas fyrlymus, lawn cymeriad ac awyrgylch sydd ag ystod o gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer chwaraeon, bywyd nos, siopa a golygfeydd yn ogystal â chalendr o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon ar hyd y flwyddyn.

Mae Barcelona yn ddinas enwog ar lan y môr, ond gan Gaerdydd mae datblygiad glan dŵr mwyaf Ewrop, sef Bae Caerdydd. Bu ardal yr harbwr yn bwysig i'r ddinas erioed ac yn y 19eg ganrif hwyr, Caerdydd oedd porthladd glo prysuraf y byd. Yn 1999, creodd morglawdd Bae Caerdydd lyn ddŵr croyw enfawr sydd erbyn hyn â barrau, tai bwyta a chaffis glan dŵr o'i gylch. Mae Plas Roald Dahl, a enwyd ar ôl yr awdur enwog a anwyd yng Nghaerdydd, yn sgwâr cyhoeddus trawiadol dros ben sydd drws nesaf i'r Senedd a Chanolfan Mileniwm Cymru lle y cynhelir ein seremonïau graddio bob mis Gorffennaf.

Mae ardal siâp powlen Roald Dahl Plass a'i heisteddle amffitheatr yn lleoliad ar gyfer cyngherddau awyr agored a gwyliau drwy gydol yr haf. Digon hawdd fydd treulio Suliau tawel ym Mae Caerdydd y gellir ei gyrraedd ar gwch hefyd o ganol y ddinas ac o dref lan y môr gyfagos Penarth.

Does dim dwywaith bod Caerdydd yn brifddinas chwaraeon. Mae Stadiwm y Principality yn codi'n amlwg i'r awyr lle y gwelwyd hanes ym myd chwaraeon yn cael ei greu oddi ar 1999 o dan ei do symudol. Dyma gyrchfan chwedlonol i gefnogwyr rygbi ar ddiwrnod gêm ryngwladol pan fydd môr o bobl o bob rhan o'r byd yn dod i Gaerdydd. Yn ôl llawer o bobl, does unman yn y byd yn well i wyllo digwyddiad mawr chwaraeon na'r stadiwm o safon byd yma sydd wedi'i leoli, a hynny'n anghyffredin, yng nghanol dinas. Yn ogystal â rygbi, mae Stadiwm y Principality yn gartref i Grand Prix rasio beiciau modur Prydain ac yn lleoliad i ornestau bocsio rhyngwladol hefyd.

Mae ei stadiwm ei hunan gan glwb pêl-droed Dinas Caerdydd yn Llecwydd hefyd, gall cefnogwyr criced fwynhau prynhawn yng Ngerddi Sophia, cartref clwb criced Morgannwg sy'n agos iawn i gampws Llandaf, a gall cefnogwyr hoci iâ weld tim Devils Caerdydd wrthi yn rinc iâ'r ddinas.

Mae rhai o'r cyfleusterau chwaraeon gorau yng Nghymru gan Met Caerdydd, ond y tu hwnt i'r Brifysgol mi ae digon o gyfle ar gyfer chwaraeon oriau hamdden. Mae Afon Taf yn llifo drwy ganol y ddinas ac mae'r ardal hardd o gylch Llyn Parc y Rhath, ger Campws Cyncoed, yn haeddu ymweliad. Tro cerdded bach o Gampws Llandaf mae cyfleusterau o safon byd yn Athrofa Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia, gan gynnwys cyrtiau badminton, tennis a phêl-rwyd. Mae'r ardal o gwmpas Caerdydd yn hardd a'r arfordir a chefn gwlad yn hygyrch, gan gynnwys Bro Gŵyr a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog lle y ceir digonedd o gyfleoedd i fwynhau gweithgareddau awyr agored gan gynnwys beicio mynydd, hwylio, seiclo a cherdded.

Mae cysylltiadau trafnidiaeth Caerdydd ei hunan yn rhai gwych. Mae wedi'i lleoli fymryn oddi ar draffordd yr M4 ac yng nghanol y ddinas mae Gorsaf Ganolog nad yw ond dwy awr o Lundain ar y trên. Mae Maes Awyr Caerdydd ychydig i'r gorllewin i'r ddinas; mae'n cynnig mynediad hawdd i lawer o fannau yn y DU ac yn rhyngwladol.



Ffeithiau cyflym am Gaerdydd:

- Yn ôl ymchwil gan *MoneySuperMarket.com* mae **Caerdydd yn un o'r tair dinas orau yn y DU am ansawdd bywyd am y tair blynedd ddiwethaf yn olynol.**
- **Gosodwyd Caerdydd yn nhrydydd safle'r brifddinas orau yn Ewrop yn arolwg *The Quality of Life in European Cities*.**
- Yn ôl y *Student Living Index 2016* **Caerdydd oedd y drydedd ddinas rataf yn y DU o ran costau rhentu.**



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd